

Diben

Corff llywodraethu Iechyd Cyhoeddus Cymru yw Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru; mae'n gweithredu fel Bwrdd llawn, neu drwy ei Bwyllgorau. Cafodd y Bwrdd ei sefydlu fel Bwrdd 'Unedol' sy'n golygu bod Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yn gyfartal o amgylch y Bwrdd ac o ran proses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd.

Mae aelodau'r Bwrdd yn:

- llunio strategaethau
- sicrhau atebolrwydd
- creu cywair a diwylliant cadarnhaol
- pennu archwaeth risg strategol a chyflawni'r gwaith o lywodraethu a goruchwyllo risgiau strategol
- goruchwyllo'r gwaith o gyflawni yn erbyn cynlluniau yn ystod y flwyddyn
- meithrin a chynnal partneriaethau strategol

Mae'r ffordd y mae Aelodau'r Bwrdd yn ymddwyn tuag at ei gilydd, ac yn ymdrin â busnes y Bwrdd/Pwyllgorau, yn rhan greiddiol o'r ffordd y mae staff a rhanddeiliad yn barnu effeithiolrwydd y Bwrdd/Pwyllgorau. Mae'r Protocol hwn yn amlinellu'r ymddygiad sy'n ddisgwylidig gan bob aelod o'r Bwrdd a'r rhai sy'n mynychu ei gyfarfodydd, wrth i'r Bwrdd/Pwyllgorau gyflawni eu rôl stiwardiaeth ac arwain y ffordd o ran hyrwyddo gwerthoedd a safonau ymddygiad y sefydliad a'i staff.

Egwyddorion Cyffredinol

- ymgorffori gwerthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru
- parchu Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan, a Chodau Ymddygiad perthnasol
- datgan unrhyw achos posibl o wrthdaro buddiannau ar ddechrau cyfarfod (neu wrth iddynt godi os ydynt yn dod i'r amlwg yn ystod y cyfarfod)
- parchu eraill a dangos cwrteisi tuag atynt, gan gydnabod bod pob cyfraniad yn werthfawr
- gwrando'n astud a herio mewn ffordd adeiladol

Cod Ymddygiad y Bwrdd

- rheoli gwrthdaro mewn modd gwrthrychol, trafod gwahaniaeth barn yn fanwl a chwilio am ffyrdd o'i ddatrys. Parchu unrhyw safbwyntiau gwahanol
- dangos cefnogaeth a theyrngarwch i aelodau eraill o'r Bwrdd
- ymrwymo i fod yn agored, yn eglur ac yn onest drwyddi draw

Cyn Cyfarfodydd y Bwrdd/Pwyllgorau

Dylai'r Cadeirydd/Prif Weithredwr/Cadeirydd y Pwyllgor/Arweinydd Gweithredol (gyda chymorth Ysgrifennydd y Bwrdd)

- gytuno ar gynlluniau gwaith blynyddol er mwyn i'r Bwrdd eu cymeradwyo'n derfynol, yn ogystal ag agendâu cyfarfodydd, trefniadau olrhain penderfyniadau a ffynonellau sicrwydd. Gwerthuso effeithiolrwydd yn rheolaidd
- adolygu cyfarfodydd yn barhaus, gan edrych yn ôl, ac yna ymlaen, er mwyn cynllunio ac addasu cyfarfodydd y dyfodol yn unol â hynny, fel dull gwerthuso rheolaidd

Dylai'r Arweinydd Gweithredol

- sicrhau bod y papurau yn cael eu paratoi mewn ffordd amserol ac yn unol â'r safonau/templod y cytunwyd arnynt. Noder, mae gan Gadeiryddion hawl i wrthod papurau a dderbynnir yn rhy hwyr i'w paratoi a chraffu arnynt yn iawn

Dylai pob Cyfarwyddwr

- ddarllen pob papur cyn y cyfarfod a gwneud cais am unrhyw eglurhad/gwybodaeth ychwanegol mewn da bryd, er mwyn sicrhau bod y drafodaeth ar y diwrnod mor wybodus â phosibl
- blaenoriaethu cyfarfodydd Pwyllgorau yn yr un ffordd â chyfarfodydd y Bwrdd gan sicrhau presenoldeb neu drefniadau dirprwyo priodol, a dylid cytuno ar y rhain ymlaen llaw gyda'r Cadeirydd/Cadeirydd y Pwyllgor
- gwneud cais i newid amserlen neu gam gweithredu penodol, dylid mynychu'r cyfarfod o'r Pwyllgor perthnasol er mwyn rhoi rheswm dros hynny a sicrwydd o ran cyflawni'r cam gweithredu

Yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd/Pwyllgorau

Dylai pob Cyfarwyddwr / y rhai sy'n bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd

- weithredu yn unol â'r egwyddorion cyffredinol a amlinellir uchod

Cod Ymddygiad y Bwrdd

- sicrhau bod ffonau symudol wedi'u diffodd, canolbwyntio ar yr agenda a'r trafodaethau sydd ar y gweill, a pheidio â gwneud unrhyw waith arall
- nodi'r hyn sydd angen ei gyfathrebu i'r staff, rhanddeilaid a'r cyhoedd ar ôl y cyfarfod, a'r dull o wneud hynny
- osgoi ailadrodd pwyntiau a wnaed gan eraill
- mabwysiadu dull gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar atebion
- bod yn effro drwyddi draw i amrywiaeth a chynhwysiant
- tynnu sylw'r Cadeirydd ymlaen llaw os bydd angen i chi adael cyfarfod y Bwrdd ar unrhyw adeg

Ar ôl cyfarfodydd y Bwrdd/Pwyllgorau

Dylai pob Cyfarwyddwr / y rhai sy'n bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd



- gyfrannu at y dulliau gwerthuso y cytunwyd arnynt, er mwyn dysgu a gwella'n barhaus
- sicrhau bod y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni, naill ai drwy'r broses gyflawni (Arweinydd Gweithredol) neu drwy sicrwydd/gwaith craffu (Cyfarwyddwyr Anweithredol)
- adolygu'n rheolaidd y cysylltiadau rhwng y Bwrdd/Pwyllgorau a staff Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rheoli cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn rhithiol yn ystod pandemig COVID-19

Mewn ymateb i COVID-19, mae'r Bwrdd wedi bod yn rhith-weithio ers mis Mawrth 2020; er mwyn hwyluso trefniadau llywodraethu effeithiol ers hynny, cytunodd y Bwrdd ar agenda ag iddi ffocws ar lefel lawn y Bwrdd a'r Pwyllgorau. Mae'r atodiad a nodir isod yn darparu canllawiau ychwanegol ar gynnal rhith-gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau.

Cod Ymddygiad ar gyfer Rhith-gyfarfodydd sy'n Cael eu Ffrydio'n Fyw

Cyn y Ffrydio Byw

<p>Lawrlwythwch Ap Teams</p> 	<p>Peidiwch ag ymuno â'r cyfarfod sy'n cael ei ffrydio'n fyw drwy'r we (Internet Explorer). Gall hyn olygu eich bod yn ymuno â'r cyfarfod fel aelod o'r cyhoedd a'ch bod yn methu â chymryd rhan yn y cyfarfod. Bydd angen i chi lawrlwytho ap Teams ar eich gliniadur (nid ar ddyfais llechen/iPad).</p> <p>https://www.microsoft.com/en-gb/microsoft-365/microsoft-teams/download-app</p>
<p>Gwiriwch y dyddiadur apwyntiadau</p> 	<p>Gwiriwch eich dyddiadur i sicrhau bod y gwahoddiad yn y dyddiadur a bod y ddolen yn gweithio. Ar ôl i'r ffrydio byw ddechrau ni ellir newid rhestr mynychwyr y cyfarfod, felly sicrhewch eich bod yn gwirio'ch dyddiadur cyn i'r cyfarfod ddechrau.</p> <p><u>Peidiwch ag anfon yr apwyntiad yn Outlook neu'r ddolen ymlaen i rywun arall</u> – mae hyn yn cynnwys anfon y ddolen ymlaen at gyfeiriad e-bost personol i gael mynediad i'r cyfarfod o gyfrifiadur/cyfrif arall.</p> <p>Ni fydd y ddolen yn gweithio a byddwch yn ymuno â'r digwyddiad ffrydio byw fel aelod o'r cyhoedd. Os oes angen i eraill fynychu'r cyfarfod cysylltwch ag Uned Fusnes y Bwrdd a fydd yn gallu eu hychwanegu at yr apwyntiad.</p>
<p>Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r ddyfais gywir</p>	<p>Sicrhewch fod eich dyfais wedi'i gwefru'n llawn, neu bod cyflenwad trydan wrth law.</p> <p>Dim ond ar liniadur y bydd nodwedd digwyddiad byw Live Events yn Teams yn gweithio - peidiwch â defnyddio iPad neu ddyfais llechen i ymuno â'r digwyddiad ffrydio byw - bydd hyn yn golygu y byddwch yn ymuno â'r cyfarfod fel aelod o'r cyhoedd ac ni fyddwch yn gallu cymryd rhan yn y cyfarfod.</p>
<p>Fframio'r camera a'r hyn sydd o'ch cwmpas</p>	<p>Cefndir – Sicrhewch fod y cefndir y tu ôl i chi yn addas, ac nad oes unrhyw fyrddau gwyn er enghraifft ag unrhyw wybodaeth gyfrinachol, yn ogystal ag eitemau personol megis ffotograffau y</p>

Cod Ymddygiad ar gyfer Rhith-gyfarfodydd sy'n Cael eu Ffrydio'n Fyw



Cyn y Ffrydio Byw

	<p>gallai cyfranogwr eraill eu gweld. Defnyddiwch nodwedd 'pylu' cefndir os nad ydych yn dymuno i'r cefndir fod yn weladwy i'r cyhoedd.</p> <p>Fframio – O ran yr hyn y gall y cyhoedd ei weld, ceisiwch sicrhau bod eich gliniadur wedi'i osod ar fwrdd i sicrhau bod y ffrwd fideo yn gyson ac yn llonydd.</p> <p>Golau - Addaswch y golau i sicrhau bod eich wyneb wedi'i oleuo'n dda ac nid mewn cysgod. <i>Awgrym – os oes ffenestr y tu cefn i chi, tynnwch y gysgodlen neu'r llenni a dibynnwch ar olau'r ystafell.</i></p> <p>Sŵn yn y Cefndir – Cofiwch ddiffodd eich microffon pan nad ydych yn siarad, a diffodd y sain ar unrhyw ddyfeisiau symudol, blipwyr, ac ati.</p>
<p>Penderfynwch ar eich lleoliad ar gyfer y cyfarfod</p>	<p>Os ydych yn bwriadu ymuno â'r cyfarfod gyda chydweithiwr/chydweithwyr yn yr un ystafell â chi, sicrhewch eich bod yn defnyddio'ch gliniadur eich hun a'ch clustffonau eich hun. Ni ddylech rannu'r un gliniadur.</p>
<p>Ymunwch â'r cyfarfod yn gynnar</p>	<p>Ymunwch â'r Digwyddiad Byw 15 munud cyn amser cychwyn swyddogol y cyfarfod i sicrhau bod eich cysylltiad yn gweithio. Sicrhewch fod eich camera a'ch microffon yn gweithio, a'u bod wedi'u lleoli'n gywir.</p> <p>Os byddwch yn ymuno â digwyddiad byw Live Event ac yn gweld '<i>The live event hasn't started</i>' – mae hyn yn golygu eich bod wedi ymuno â'r cyfarfod fel aelod o'r cyhoedd a bydd angen i chi ailymuno gan ddefnyddio'r ddolen yn yr apwyntiad neu gysylltu ag Uned Fusnes y Bwrdd.</p>

Cod Ymddygiad ar gyfer Rhith-gyfarfodydd sy'n Cael eu Ffrydio'n Fyw



Yn ystod y Ffrydio Byw

Cyflwyniadau	Bydd y Cadeirydd yn croesawu'r holl gyfranogwyr i'r cyfarfod. Bydd y Cadeirydd yn gofyn i bawb sy'n bresennol gyflwyno'u hunain pan fyddant yn siarad am y tro cyntaf i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o rôl yr unigolyn o fewn y sefydliad.
Cyfleuster Sgwrsio	<p>Dim ond fel modd o roi gwybod i Gadeirydd y cyfarfod ac Uned Fusnes y Bwrdd am fater logistaidd neu os ydych yn dymuno gofyn cwestiwn y dylid defnyddio'r Cyfleuster Sgwrsio. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i fod yn agored a thryloyw. Ni all aelodau'r cyhoedd ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio, felly defnyddiwch y swyddogaeth ar gyfer y materion hynny y gall y Cadeirydd eu lleisio, a bydd hynny wedyn yn rhan o'r cofnod cyhoeddus.</p> <p>Dylech hefyd ddefnyddio'r Cyfleuster Sgwrsio os ydych yn cael anawsterau technegol neu'n gorfod gadael y cyfarfod am unrhyw reswm.</p> <p>Dim ond y rhai a wahoddwyd i'r cyfarfod sy'n gallu gweld y Sgwrs, felly nid yw aelodau'r cyhoedd yn gallu ei gweld.</p>
Cyfrannu at y cyfarfod	Pan fyddwch yn cyfrannu at y cyfarfod nodwch pwy ydych chi pan fyddwch yn dechrau siarad a chofiwch oedi rhywfaint ar y dechrau tra bod eich ffrwd fideo yn llwytho. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r cynhyrchwyr lwytho eich ffrwd fideo ar y sgrin er mwyn ei ffrydio'n fyw.
Cyflwyniadau	Rhowch wybod i Uned Fusnes y Bwrdd cyn diwrnod y cyfarfod os oes gennych gyflwyniad er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei lwytho ymlaen llaw.
Sgrin Arddangos	Yn ystod y cyfarfod, bydd y brif sgrin yn canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n siarad ar y pryd ond y cynhyrchwyr sy'n trefnu hyn â llaw ac nid yw'r ffrwd yn dilyn unigolion wrth iddynt siarad (yn wahanol i Skype). Byddwch yn amyneddgar, fe wnawn ein gorau glas i sicrhau bod y pontio rhwng ffrydiau fideo mor llyfn ac amserol â phosibl.

Cod Ymddygiad ar gyfer Rhith-gyfarfodydd sy'n Cael eu Ffrydio'n Fyw



Diwedd y Sesiwn Gyhoeddus	Ar ôl i'r cyfarfod cyhoeddus ddod i ben, bydd angen i chi adael y cyfarfod a defnyddio'r apwyntiad arall i gael mynediad at Sesiwn Breifat y Bwrdd.
Adborth	Cyfarfod Bwrdd mis Gorffennaf 2020 oedd y tro cyntaf i ni roi cynnig ar ffrydio byw gan ddefnyddio'r feddalwedd hon a gyda'r Bwrdd yn gweithredu o bell. Fe wnaethom ei brofi cymaint ag y gallem a dysgu gan eraill – rydym yn croesawu unrhyw adborth parhaus am eich profiad yn ystod neu ar ôl y cyfarfod er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i fireinio'r profiad er budd y Bwrdd a'r cyhoedd yn ehangach.